| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Medi 2022 |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorwyr Gill German/ Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad** | Rhian Morrlle |
| **Teitl** | Arolygiaeth Gofal Cymru - Arolygiaeth o Wasanaeth Derbyniad ac Ymyrraeth, Tachwedd 2021 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r archwiliad. 'dilynol' o'r Gwasanaeth Derbyniad ac Ymyrraeth sydd o fewn y Gwasanaethau Addysg a Phlant. Pwrpas yr archwiliad hwn oedd mesur cynnydd yn dilyn Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru a gynhaliwyd ym mis Mehefin/ Gorffennaf 2021.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad hwn a'r rhaglen wella barhaus o fewn y Gwasanaeth.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y llythyr canfyddiadau'r Arolygiaeth Gofal Cymru, deall y meysydd i wella ac yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw waith craffu pellach.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Cyflawnodd yr Arolygiaeth Gofal Cymru Wiriad Sicrwydd rhwng 28 Mehefin tan 2 Gorffennaf 2021. Mae canfyddiadau'r gwiriad hwn wedi'u hatodi fel Atodiad A. Pwrpas y gwiriad sicrwydd oedd adolygu pa mor dda oedd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda ffocws ar ddiogelwch a lles.

4.2. Canfu'r Arolygiaeth Gofal Cymru nifer o feysydd o arferion da ar draws y Gwasanaethau Plant ac Addysg, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaeth Therapiwtig a Ffiniau Gofal ac yng ngwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal.

4.3. Amlygodd y Gwiriad Sicrwydd ychydig o bryderon ynghylch anghysondeb o arferion o fewn maes penodol o wasanaeth, a dyma'r maes a oedd yn destun arolygiad dilynol ym mis Tachwedd 2021. Mae canfyddiadau'r archwiliad hwn wedi'u hatodi fel Atodiad B.

4.4. Mae'r materion arferion o fewn y maes hwn o wasanaeth wedi cael eu hadnabod gan Uwch Reolwyr cyn y gwiriad Sicrwydd. Roedd y gwasanaeth yn destun craffu ychwanegol ac roedd camau gweithredu i wella yn mynd rhagddo.

4.5. Roedd yr archwiliad dilynol wedi amlygu rhai meysydd o welliant, ond wedi cydnabod yr effaith o nifer uchel o swyddi gwag ar draws y gwasanaeth yn ei gael ar y daith i wella.

4.6. Mae'r argyfwng cenedlaethol o recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys yn parhau i fod yn broblem sylweddol o fewn y gwasanaeth, a phwysau cynyddol ar staff oherwydd y swyddi gwag.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Archwiliad yn darparu persbectif allanol o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwasanaeth penodol o fewn y Gwasanaethau Addysg a Phlant.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae ymateb i gyflawni camau gweithredu i wella wedi'i integreiddio o fewn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth. Bydd cyflawniad y cynlluniau hyn yn cael eu rheoli o fewn adnoddau ariannol presennol a chais ychwanegol am gyllid, os bydd angen, fel rhan o'r broses cyllideb a gytunwyd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae cyfarfodydd ymgysylltu wedi’u trefnu yn cael eu cynnal gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a’r Arolygiaeth Gofal Cymru sydd yn helpu hysbysu’r gwerthusiad hwn yn ogystal ag asesu cynnydd i ddarparu gwelliannau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad ar gyfer pwrpas yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau’n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1Nid oes angen penderfyniad yn yr adroddiad hwn.